

# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

## LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: [CyngorLlandygai@ogwen.org](mailto:CyngorLlandygai@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Tregarth  
**Nos Iau 17 Mai 2018 am 1830**

### **PRESENNOL:**

Y Cynghorydd Dafydd Owen

Y Cynghorydd Mair Leverett

Y Cynghorydd Dafydd Roberts

Y Cynghorydd Iwan Hywel

Y Cynghorydd Gwen Griffith

Y Cynghorydd Richard Fraser-Williams

Y Cynghorydd Mair Owen Pierce

Y Cynghorydd Huw P Jones

Y Cynghorydd Angharad Williams

Y Cynghorydd Mary Hayes

Y Cynghorydd Gabrielle Wyn

**1. Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Mair Owen Pierce (yn absenoldeb y Cadeirydd)

Ymddiheuriadau gan y Cyng. Mair Jones a Dafydd Jones.

### **2. Cofnodion**

**Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2018.

### **3. Materion yn codi o'r cofnodion**

**3.1** Llwybr beics pentref Llandygai-adroddwyd bod beicwyr sy'n defnyddio'r Lôn Las sy'n mynd drwy'r pentref, yn mynd a'r wîb. Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd yn ymgynghori gyda Sustrans ynghylch symud yr arwydd, fel bod beicwyr yn defnyddio llwybr arall drwy'r pentref. Dal i ddisgwyl diweddariad gan Gyngor Gwynedd.

**3.2** Lloches bws ger Stad Ddiwydiannol Llandygai- angen ei lanhau. Y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i'w wneud.

**3.3** Llwybr 59, Carreg Y Fedwen-y Cyng. Dafydd Owen am ofyn wrth ein contractwr i wneud y gwaith.

**3.4** Adroddwyd bod angen gosod bin halen yn Bro Syr Ifor, gan nad oes un yno ar hyn o bryd. Y Cyng. Dafydd Owen i gyfarfod swyddog Cyngor Gwynedd ar y safle i gadarnhau'r lleoliad. Disgwyl am ddyddiad gan y swyddog

**3.5** Llochesi bws Mynydd Llandygai a Ffordd Tan Rhiw-angen eu paentio. Bradites wedi rhoi'r paent a Chwmni Adsefydlu Cymunedol wedi gwneud y gwaith paentio.

**3.6** Gwasanaeth Ieuenctid-penderfynwyd holi am fwy o wybodaeth ynglŷn a'r gwasanaeth symudol arfaethedig. Ymateb gan Gyngor Gwynedd "Ar hyn o bryd rydym yn gweithredu ar y Strwythur Staffio newydd. Rydym hefyd yn gweithredu

ar gynllun cyfathrebu. Byddwn yn anfon gwybodaeth allan yn fuan ynglŷn a dechrau hyrwyddo y gwasanaeth newydd. Ar hyn o bryd ni allaf ddweud ymhle fydd y prosiectau a'r digwyddiadau yn Dyffryn Ogwen dim ond i ddweud y bydd darpariaeth yn Dyffryn Ogwen.”

- 3.7 Canolfan Tregarth-disgwyl ymateb i'n ymholiad o'r adroddiad draeni. Hefyd Un Llais Cymru wedi gwneud cais i ni gyfieithu'r brydles er mwyn cael cyngor cyfreithiol, wedi anfon ein siom at Comisiynydd yr Iaith.
- 3.8 Tynal Tywyll-y goleuadau/lampau heb gael eu newid. Y clerc i holi Cyngor Gwynedd am eu hamserlen i ymgymryd â'r gwaith.
- 3.9 Tarmac yn codi yn Bro Syr Ifor-y Cyng. Dafydd Owen am gysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Problem hefyd yn Erw Faen.

#### 4. Gohebiaeth

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mai 2018'

**Cyflwynwyd:** llythyr gan Partneriaeth Ogwen-cynllun busnes drafft. Anfon unrhyw sylwadau yn dilyn darllen y ddogfen.

**Cyflwynwyd:** e-bost gan Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg-ymgyngoriad ar Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023. Penderfynwyd bydd yr aelodau yn ymateb fel unigolion i'r arolwg ar-lein.

**Cyflwynwyd:** e-bost gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol-Adroddiad Blynyddol 2017-2018. Adroddwyd bod lwfans blynyddol ar gael i'r aelodau ar gyfer costau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac yn y blaen. Bydd angen i'r aelodau gysylltu gyda'r Clerc os am hawlio'r taliad.

**Cyflwynwyd:** e-bost gan swyddfa Hywel Williams AS yn holi am unrhyw elusen lleol. Penderfynwyd enwebu Cylch Meithrin Tregarth, Cylch Meithrin Mynydd Llandygai a hefyd Hosbis yn y Cartref.

**Cyflwynwyd:** e-bost gan Mr Brown gyda'i sylwadau ar y cais cynllunio mast yn Bryn Cul. Trafodwyd y sylwadau a phenderfynwyd ymateb bod ei ohebiaeth wedi ei anfon i'r bobl priodol yn barod, ac yn anffodus nid oes gan y Cyngor Cymuned lawer o ddylanwad.

**Cyflwynwyd:** llythyr gan Partneriaeth Ogwen-amcan (diwygiedig) o'r cyfraniad blynyddol tuag at costau rhedeg y llyfrgell. Y Clerc i wneud ymholiadau ynglŷn a termâu'r gofalwr, ond y Cyngor yn hapus i gyfrannu tuag y costau eraill.

**Cyflwynwyd-** e-bost gan Nia Morris o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn dilyn ein ymholiadau o'r gwasanaeth newydd. Trafodwyd bod gwirfoddolwyr yn meddwl cynnal y gwasanaeth yn Mynydd Llandygai. Penderfynwyd bydd y cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cyfarfod gyda'r gwirfoddolwyr (unwaith bydd mwy o fanylion am y gwasanaeth newydd) i ddarganfod beth yw eu anghenion a chael amcan o'r costau.

**Cyflwynwyd-** cais am gyfraniad tuag costau 'jet wash' a net newydd ar gyfer y cyrtiau tenis ym Mharc Meurig gan grŵp o wirfoddolwyr sydd wrthi yn clirio'r safle. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gyfrannu (unwaith bydd y Clerc wedi cadarnhau ffin y Cyngor).

## **5. Gwaith y mis**

**5.1** Wal wedi ei malu ar Ffordd Tan Rhiw yn dilyn damwain car. Gwaith blêr o'i roi yn ôl at ei gilydd.

**5.2** Ffens wedi disgyn ar y Lôn Las wrth gerdded tuag at y dwnnel.

**5.3** Lôn Gefn, Dob-angen sylw i dorri'r rhedyn yn fuan gan ei fod y tyfu allan i'r ffordd.

## **6. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Canolfan Tregarth** – adroddwyd bod gwaith trydanol am gael ei ymgymryd gan Jones & Whitehead-goleuadau yn y neuadd a peiriannau sychu dwylo i'r Ysgol Feithrin ac yn y 3 toiled. Hefyd disgwyl saer coed i newid y drysau gafodd ei fandaleiddio gan y Clwb Ieuenctid.

## **7. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**

**7.1.** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Ebrill.

**7.2.** Rheoli Risg: Dim i'w ystyried ar hyn o bryd

## **8. Taliadau**

### **Awdurdodwyd y canlynol**

Ysgol Bodfeurig-Eisteddfod	£100.00
Xpose Media-sticeri	£81.00
Cyngor Gwynedd-biniau halen	£993.60

## **9. Cyfraniad mynwentydd**

Penderfynwyd cynyddu'r cyfraniad i £800 ar gyfer yr eglwysi, ac anfon y sieciau ar unwaith.

## **10. Apwyntiad Archwilydd Mewnol**

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i barhau gyda'r gwasanaeth archwilio gan Parry & Co, Rhosneigr.

## **11. Sedd wag Ward Mynydd Llandygai**

Dim diddordeb hyd yn hyn.

## **12. Penderfyniadau Cynllunio**

**C17/0903/16/LL**

Carreg y Fedwen, Sling, Tregarth  
Creu canolfan ymchwil a menter  
iachâd cysegredig gan gynnwys codi  
pedwar adeilad newydd, creu  
meysydd parcio a chodi wal ffin 2.3m  
o uchder (cais diwygiedig i gais  
dynnwyd yn ôl - C16/1158/16/LL)  
**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd

**Adroddwyd bod y Pwyllgor  
Cynllunio am ymweld a'r safle.**

**C17/1266/16/LL**

Tir yn Bryn Cul, Tal Gae, Tregarth  
Gosod mast telathrebu 17.5 medr o  
uchder gan gynnwys 3 antena a 2  
ddysgl darlledu ynghyd a 2 gaban offer  
a 1 cabinet mesurydd a gwaith atodol  
**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd.

**Adroddwyd bod y Pwyllgor  
Cynllunio am ail- edrych ar y cais.**

**C17/1237/11/LL  
C17/1236/11/CR**

Angorfa'r Prince Madog, Port Penrhyn,  
Bangor  
Gwaith tynnu strwythur codi cychod  
presennol a chodi strwythur newydd  
**Penderfyniad:** Holl ymgynghoriadau  
drosodd.

**C18/0123/16/TC**

Spring Cottage, Carreg y Fedwen, Sling  
Cais tystysgrif cyfreithloni defnydd fel  
annedd breswyl Defnydd Dosbarth C3  
**Penderfyniad:** Cais wedi ei gofrestru

**C18/0122/16/LL**

6 Craig y Pandy, Tregarth, Bangor  
Estyniad unllawr ac estyniad deulawr  
yn yr ochr ac yn y cefn.  
**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag  
amodau.

**C18/0218/16/LL**

Tŷ'r Ysgol, Tregarth, Bangor  
Codi tŷ deulawr, llecynnau parcio a  
thirlunio  
**Penderfyniad:** Gwrthodwyd-  
Niweidiol i fwynderau preswyl a creu  
elfen ormesol dros ardd.

**13. Ceisiadau Cynllunio**

**C18/0291/16/LL**

44 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor  
Gostwng cyrbiau a thynnu wal i lawr  
ar gyfer creu mynedfa gerbydol a man  
parcio  
**Penderfyniad:** Cefnogi

**C18/0198/16/LL**

Fferm Moelyci, Lon Felin Hen,  
Tregarth

Estyniad i'r cwt gwair presennol er mwyn lleoli 9 cynhwysedd i'w defnyddio ar gyfer swyddfa, unedau sychu ac ar gyfer addasu deunydd biomas i greu cynnyrch fel gwrtaith hylifol. Lleoli tanciau yn yr iard ar gyfer storio bionwy ac ar gyfer defnydd treulio anerobig.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

**C18/0358/16/LL**

Asiantaeth Safonau Gyrru,  
Ystad Ddiwydiannol Llandygai  
Estyniad i'r uned bresennol,  
ymestyn y maes parcio ynghyd  
a newidiadau mewnol i'r uned  
ei hun

**Penderfyniad:** Cefnogi

#### **14. Unrhyw fater brys arall**

Dim i'w drafod.